



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Strategaeth Ymgynghori ac  
Ymgysylltu Cyhoeddus

Hydref 2017

---

## 1. Pwrpas

---

Mae'r Strategaeth yma yn diwallu'r ddyletswydd i ymgynghori a osodir ar yr Ymddiriedolwyr gan Statud 6(1) o Siarter Atodol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n nodi:

Bydd yr Ymddiriedolwyr :-

*(a) yn mabwysiadu cynllun sy'n pennu trefniadau i alluogi'r Ymddiriedolwyr :*

*(i) i ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd a chyda cyrff â diddordeb mewn hyrwyddo amcanion y Llyfrgell, a*

*(ii) i ganfod personau sy'n gymwys ac yn barod i roi cymorth a chynghor i'r Llyfrgell men cysylltiad â hyrwyddo amcanion y Llyfrgell*

*(b) yn gweithredu'r cynllun y cyfeirir ato yn yr is-baragraff blaenorol ac adolygu ei delerau'n rheolaidd a newid y cyfryw gynllun o bryd i'w gilydd os gwelir yn dda i wneud hynny.*

Mae'r Strategaeth yma yn gosod allan yr egwyddorion y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn eu dilyn wrth ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd i wireddu un o'n gwerthoedd craidd, sef darparu gwasanaeth gwych i'n holl ddefnyddwyr trwy ddeall eu diddordebau a'u hanghenion a gwneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar y safle, ar-lein ac mewn unrhyw safle arall. Mae hefyd yn amlinellu'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus er mwyn cynnal deialog sy'n fuddiol i'r ddwy ochr rhwng y Llyfrgell a'r cynulleidfaoedd yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae cynnal deialog gyda'n defnyddwyr presennol, defnyddwyr potensial a chynulleidfaoedd ehangach yn ein galluogi i ddarparu'r hyn sydd eisiau a'r hyn sydd ei angen ar gymunedau ac unigolion yng Nghymru a thu hwnt, gan gyfoethogi bywydau a gwella cyfleoedd bywyd, cefnogi addysg ac ymchwil, a'n helpu ni i ddeall sut orau i ddarparu'r gwasanaeth gorau i bawb. Yn ogystal, mae'r camau ymarferol yr ydym wedi eu cymeryd eisoes i sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan greiddiol o'n gwaith a phrofiad y defnyddiwr wedi eu hamlinellu, gan fod y rhain yn ein galluogi i adeiladu ar lwyddiant y gorffennol a sicrhau y bydd unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu tuag at y dyfodol yn fwy strategol ac effeithiol.

Mae'r Strategaeth yma yn ffocysu ar ymgynghori ac ymgysylltu yng nghyswllt sefydliadau o fewn y sector diwylliant a threftadaeth, ble mae'r gwaith yma yn angenrheidiol i ddatblygu a gwasanaethu eu cynulleidfaoedd yn ogystal â datblygu eu gwasanaethau eu hunain. Y prif nodau yw cyd-ddealltwriaeth, gweithio ar y cyd a rhannu buddion. Mae cyswllt amlwg rhwng y Strategaeth yma (sydd yn ofynnol o dan y Siarter Atodol) a Strategaeth Marchnata'r Llyfrgell, fydd hefyd yn cyfathrebu beth y medrwn ei gynnig i gymunedau a chynulleidfaoedd gwahanol ac mae'n chwarae rhan bwysig i sicrhau fod pobl yn fwy gwybodus am ein gwasanaethau a'n polisiau. Bydd y ddwy Strategaeth yn gweithredu ochr yn ochr ag yn cefnogi ei gilydd,

Mae Statud 6(2) yn darparu i'r Ymddiriedolwyr fedru sefydlu cyrff ymgynghorol i gynorthwyo a chynghori'r Ymddiriedolwyr. Dyma'r sylfaen ar gyfer sefydlu Corff Ymgynghorol Allanol y Llyfrgell yn 2006. Gan ystyried cymhlethdod cynyddol gwaith y Llyfrgell a'r anghenion cysylltiol i ymgynghori ac ymgysylltu'n gyhoeddus, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu peidio ymarfer y pŵer yma ymhellach ac i fabwysiadu ymagwedd ehangach a mwy hyblyg.

Mae gan y Llyfrgell ddyletswydd i weithio yn y ffordd yma o dan ymrwymadau'r Siarter. Mae'r Statudau sy'n ynghlwm i Siarter Atodol 2006 yn cynnwys "dyletswydd i ymgynghori" (Statud 6), sy'n nodi bod rhaid cael trefniadau yn eu lle i alluogi'r Llyfrgell i ymgynghori gyda phobl sydd â diddordeb yn ein gwaith ac i ofyn am eu cyngor a chefnogaeth, a bod rhaid adolygu'r trefniadau yma i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. Dyma'r sylfaen ar gyfer sefydlu Corff Ymgynghorol Allanol y Llyfrgell yn 2006 fel fforwm ymgynghorol oedd yn cynrychioli sefydliadau ac arbenigedd yng Nghymru fyddai'n medru gwneud cyfraniad gwerthfawr i waith y Llyfrgell. Serch hynny, erbyn heddiw, mae cymhlethdod cynyddol gwaith y Llyfrgell a'r anghenion cysylltiol i ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus yn dangos fod angen ymagwedd fwy hyblyg ac ehangach.

## **2. Y cyd-destun**

---

Y Llyfrgell Genedlaethol yw prif lyfrgell ac archif digymar Cymru. Mae'n adnodd gwybodaeth enfawr ac yn drysorfa ar bob pwnc, ac yn storfa fyw o ddiwylliant cofnodedig Cymru sydd ar gael yn rhad i bawb. Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y Llyfrgell') drwy Siarter Frenhinol ym 1907 ac yn gweithredu erbyn hyn dan y Siarter Atodol fwyaf diweddar a ganiatawyd yn 2006 ac wedi'i addasu yng nghyd-destun y datblygiadau cyfansoddiadol a ddeilliodd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r Llyfrgell yn elusen gofrestrdig (rhif cofrestru: 525775) ac fel y cyfryw daw o dan oruchwyliaeth

reoleiddiol y Comisiwn Elusennau. Am y rhesymau hyn y mae'r Llyfrgell yn gorfod cadw cydbwysedd rhwng cyflawni 'amcanion' ei Siarter a'i statws fel Elusen, sy'n adlewyrchu ei phwrpas sylfaenol, gydag agenda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Erbyn heddiw, mae i'r Llyfrgell ddau ddimensiwn - adeilad ffisegol ysblennydd yn Aberystwyth sy'n gartref i'r casgliadau print, llawysgrifau, gweledol a chlywedol a llyfrgell ac oriel ar-lein sydd ar gael ar draws y byd dros y rhyngwrwd. Mae hefyd yn un o'r chwe Llyfrgell "adnau cyfreithiol" y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ac mae ganddi freintiau statudol sy'n ei galluogi i gasglu cyfran uchel o holl allbwn cyhoeddiadau print y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, gan gynnwys fformatau electronig.

Mynegir pwrpas y Llyfrgell yn Siarter Frenhinol Atodol 2006 fel: *casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.*

Ers ei sefydlu yn 1907, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi parhau i gasglu a diogelu treftadaeth ddogfennol Cymru ac arloesi gyda ffyrdd newydd o roi mynediad ehangach at ein casgliadau cenedlaethol gwerthfawr. Pwrpas a gweledigaeth sylfaenol y Llyfrgell Genedlaethol oedd sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'i ddogfennu mewn ffurfiau a chyfryngau amrywiol dros y blynyddoedd yn hygyrch ac ar gael bob amser i alluogi pawb i gael gwell dealltwriaeth o bwy ydym, i esbonio'r etfeddiaeth hanesyddol a diwylliannol sydd wedi ein ffurfio ni fel cenedl dros y canrifoedd, ac i ysgogi dysg ac ymchwil. Mae ein casgliadau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth bwysig am y byd ehangach, o safbwynt hanesyddol ac ar gyfer y gymdeithas gyfoes.

Mae'r trysordy eang hwn o lyfrau, llawysgrifau, archifau, mapiau, lluniau, ffotograffau, papurau newydd, sain a ffilm angen rheolaeth hirdymor effeithiol ynghyd â mesurau cadwedigaeth er mwyn cynnal y casgliadau, gan ddarparu catalogau cywir a manwl a dulliau canfod ar gyfer y cynnwys. Rhaid wrth ddarparu mynediad at ein casgliadau a'n gwasanaethau ar ein safle ffisegol yn Aberystwyth a thu hwnt. Mae cyflenwi'n ddigidol yn cynnig cyfleoedd pellach i roi mynediad at ein casgliadau ar draws Cymru a'r byd i gyd.

#### **Ein pump 'swyddogaeth graidd' yw:**

- Casglu treftadaeth ddogfennol Cymru
- Cadw'r dreftadaeth hwn mewn amrywiol fformatau

- Rhoi mynediad a gwybodaeth
- Cefnogi dysgu a dehongli
- Cydweithio proffesiynol ar draws Cymru gyda'r rhai sydd yn rhannu ein nodau, megis llyfrgelloedd ac archifau, Amgueddfa Cymru a CBHC, prifysgolion a cholegau

### **Ein hegwyddorion a gwerthoedd sylfaenol yw:**

- Lles cyhoeddus
- Ymgysylltu â'r dinesydd
- Ymgynghori â rhanddeiliaid
- Parch a bod yn gynhwysol
- Atebolrwydd democrataidd

Wrth wraidd y Llyfrgell mae ei chasgliadau cyfoethog ac amrywiol, rhai ohonynt wedi eu cynnwys yng Nghofrestr "Cof y Byd" UNESCO:

- Llyfrau, cylchgronau, papurau newydd a deunyddiau printiedig eraill sy'n dod i tua 6m o gyfrolau. Rydym yn 'llyfrgell adnau' gyfreithiol ac yn casglu canran uchel o holl gyhoeddiadau printiedig y DU ac Iwerddon, rhai ohonynt nawr mewn fformat electronig.
- Llawysgrifau: 30,000 o eitemau, yr hynaf yn dyddio o 113 OC, ac yn cynnwys llenyddiaeth gynharaf Cymru a thestunau cynnar Prydain ac Ewrop.
- Archifau (15km, 2,500 o gasgliadau, yn cynnwys Archif Wleidyddol Cymru, cofnodion ystadau, cofnodion Llys y Sesiwn Fawr a'r Eglwys yng Nghymru, pob ewyllys a brofwyd yn esgobaethau Cymru cyn 1858, papurau llenyddol modern ac archifau sefydliadau a busnesau Cymru).
- Mapiau (dros 1.5m o fapiau a miloedd o atlasau).
- Lluniau (50,000 o weithiau sy'n gofnod o Gymru, yn bennaf trwy dirluniau a phortreadau).
- Ffotograffau (950,000 o brintiau, negatiffau a thryloywluniau: y casgliad mwyaf yng Nghymru).
- Micro ffurfiau (er enghraifft, papurau newydd, archifau a ffynonellau hanes y teulu).
- Delweddau sain a symudol (7m troedfedd o ffilm, 300,000 awr o fideo, 250,000 awr o recordiadau sain, 200,000 eitem o Archif ITV Cymru, a miloedd o recordiau a thapiau. Cedwir y cyfan yn Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru).

- Deunydd electronig: miliynau o wrthrychau digidol, yn cynnwys CD-ROMs, e-lyfrau, e-gylchgronau, gwefannau, archifau electronig ac eitemau wedi eu digido.

Mae Siarter Frenhinol ac amcanion' elusennol y Llyfrgell yn parhau i chwarae rôl ganolog yn ein cynlluniau strategol ac yn arwain ein blaenoriaethau a'r ffordd yr ydym yn gweithio wrth ofalu am ein casgliadau cyfoethog ac amrywiol ynghyd â darparu mynediad ac ymgysylltu cymunedol. Mae blaengaredd a thwf hefyd yn bwysig wrth i ni geisio sicrhau ein bod ni'n cyfrannu'n effeithiol i fywyd y genedl a bodloni anghenion diwylliannol, addysgu ac ymchwil pobl Cymru ar bob lefel.

### **3. Ein hymagwedd i ymgysylltu ac ymgynghori**

---

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cydnabod bod rhaid iddi, yn y byd cyfnewidiol sydd ohoni, fel sefydliadau eraill, angen ymchwilio i ddulliau newydd o ymgysylltu er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn gynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol y mae hi yn eu gwasanaethu ble bynnag y maent - boed yng Nghymru neu du hwnt, gan gynnwys y diaspora Cymreig ac ymchwilwyr a diddordeb ar draws y byd sy'n medru mwynhau gwasanaethau a gweithgareddau rhithiol. Felly, mae prosesau ymgynghori ac ymgysylltu hyblyg yn hanfodol er mwyn ymgynghori at amcanion cyffredin, diwallu anghenion a galluogi pobl a'u cymunedau i elwa o'r hyn y gallai'r Llyfrgell ei wneud iddynt. Am y rhesymau yma, anelwn i fod yn hyblyg yn ein hymagwedd i bob agwedd o'r gwaith yma yn ôl y galw, tra hefyd yn ymateb i ddatblygiadau mewn ymarfer da a newidiadau yn nisgwyliadau'r cyhoedd.

Yr ydym hefyd yn ymwybodol bod "ymgysylltu cymunedol" yn broses ddwy ffordd rhwng cymunedau (cymunedau daearyddol a chymunedau sydd â diddordeb) a'r Llyfrgell i ddatblygu perthnasoedd da gyda chynulleidfaoedd ac nad yw'n broses statig. Bydd gan ein rhaglenni felly amcanion a buddion i bawb sydd yn cymryd rhan, gan alluogi'r Llyfrgell i fod yn fwy perthnasol i ddiddordebau'r gymuned ac i ddeall y diddordebau hynny.

Bydd ymgysylltu yn cael ei danategu gan bedwar gwerth craidd sydd yn adlewyrchu'r rhai a ddiffiniwyd gan Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Cyfranogiad Cyhoeddus (IAP2):

- Dylai pobl gael cyfle i fynegi barn am benderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau
- Bydd barn gyhoeddus yn cyfrannu at benderfyniadau
- Bydd pobl yn derbyn y wybodaeth sydd ei angen arnynt i fedru cymryd rhan yn llawn

- Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn cael gwybod sut mae ei mewnbwn wedi effeithio ar benderfyniadau

Wrth gynllunio ymgynghori ac ymgysylltu yn ymwneud a phenderfyniadau strategol a gweithredol, mi fydd lefel yr ymgysylltu cyhoeddus yn cael ei benderfynu, a gall amrywio o wybodaeth elfennol i ofyn am farn trwy rolau ymgynghori a phaneli arbenigwyr

#### 4. Cydweithio a phartneriaethau

---

Rhaid i ni bob amser sicrhau bod y Llyfrgell yn berthnasol i fywyd y genedl a bod ein gweithgareddau, gwasanaethau a digwyddiadau yn adlewyrchu'r hyn y mae ar bobl Cymru ei angen gennym. Ni allwn weithredu ar ein pen ein hunain bob amser. Felly, bydd gweithio'n agos â'n partneriaid wrth gyflawni gwahanol agweddau'r strategaeth hon - ac wrth fanteisio ar ein gwahanol gryfderau - yn hynod bwysig. Yr un pryd, bydd y prosesau ymgysylltu cymunedol yn dod â ni'n nes at gymunedau ac unigolion gan roi cyfle i ni ddatguddio potential rhagorol ein casgliadau a'n gwasanaethau.

Rhaid i bartneriaethau strategol ddangos sut y mae ein gwaith yn rhoi gwerth ychwanegol i amcanion ac allbynnau cyffredin. Rydym yn cynnig arbenigedd ym meysydd diwylliant, addysg hanes a threftadaeth, ymchwil amrywiol ac ar wahanol lefelau, rheoli a darparu gwybodaeth ddigidol, gwasanaeth Cymraeg a dwyieithog a diwylliannau Celtaidd.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf yma rydym wedi ceisio creu perthynas mwy deinamig gyda'n cynulleidfaoedd, ac yn enwedig felly wrth i'r Gwasanaeth Addysg, yr Uned Mynediad Digidol a'r cynllun gwirfoddoli ddod i'w hoed. Wrth feithrin y perthnasau hyn gyda'n hymwelwyr, y sectorau cyhoeddus a phreifat, mae'r Llyfrgell erbyn hyn yn cael ei gweld fel sefydliad gweithredol yn hytrach na sefydliad goddefol: mae'r Llyfrgell yn cael ei gweld fel cynhyrchydd yn ogystal â darparwydd gwybodaeth erbyn hyn.

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos ehangiad sylweddol diweddar yn y ffordd y mae'r Llyfrgell yn rhyngweithio â'i chynulleidfaoedd a sut mae'n dylanwadu ar y sphere cyhoeddus a hwylusir gan brofiad a hyder a thrwy ffurfio perthnasau buddiol gyda chynulleidfaoedd allanol. Er bod nifer o'r cysylltiadau hyn yn dod yn fwy gweladwy drwy i drefniadau ffurfiol gael eu gwneud, mae eraill wedi digwydd yn anffurfiol a thrwy drefniadau *ad hoc*.

**Astudiaeth Achos 1:** Mae ein cynllun gwirfoddoli wedi rhoi cyfle i ni ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Rydym wedi bod yn ymgysylltu â gwirfoddolwyr ers 2012 oherwydd ein bod ni'n credu fod ymwneud â diwylliant yn datblygu sgiliau, darparu cyfleoedd i gymdeithasu a chynyddu hunan

barch a dyheadau a gwella sgiliau cymdeithasol. Mae darparu'r cyfleoedd hefyd yn help i'r Llyfrgell gyflawni targedau ei Chynllun Strategol yn ogystal ag ehangu mynediad at ei chasgliadau. . Enillodd y cynllun wobwr ragorol yr Archives and Records Association yn 2016 ac yr oedd y beirniaid yn hynod ganmoliaethus gydag elfennau ymgysylltu eang y cynllun a'r gefnogaeth a roddir i wirfoddolwyr.

**Astudiaeth Achos 2:** Trwy weithio'n agos â Scottish Power, mae'r Gwasanaeth Addysg wedi cyflawni rhaglen o weithgareddau estyn allan gydag ysgolion yn ardaloedd y Rhaglen Cyfuno ar draws Cymru, gan gynnwys y prosiect Casglu, Creu ac Arloesi, a roddodd i'r disgyblion gyfle i gasglu, digido a chreu adnoddau ar-lein am eu hardaloedd. Mae'r bartneriaeth ragorol hon hefyd wedi ein galluogi i weithio gydag ysgolion i gynhyrchu llawlyfr wedi'i sylfaenu ar gasgliadau'r Llyfrgell a chefnogi myfyrwyr y Fagloriaeth Gymreig gyda'u prosiectau unigol. Mae'r uchafbwyntiau'r bartneriaeth yn cynnwys dyddiau 'Campwaith Mewn Ysgol' pryd aethpwyd â llun J W M Turner o Gastell Dolbadarn o'i gartref yn y Llyfrgell I mewn i ysgolion.

**Astudiaeth Achos 3:** Yn 2014 fe benododd y Llyfrgell ei Wicipediwr Preswyl cyntaf. Ers hynny rydym wedi ymgysylltu â chynulleidfa ehangach er mwyn casglu cynnwys a helpu golygyddion Wikipedia sydd erbyn hyn wedi creu cannoedd o erthyglau newydd gan arwain y ffordd o ran hyrwyddo mynediad agored i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Mae 15,000 o ddelweddau o gasgliadau'r Llyfrgell wedi'u rhannu'n barod ar drwydded agored drwy Wikimedia Commons ac y mae erthyglau Wicimedia'n Llyfrgell wedi cael eu gweld o gwmpas 200 miliwn o weithiau. Mae ymgysylltu gyda chynulleidfaedd newydd, unigolion a sefydliadau wedi arwain at gynaeafu gwybodaeth a fyddai fel arall wedi'i golli.

## 5. Enghreifftiau ac Allbynnau a Chanlyniadau 2017 - 2018

---

- Cefnogi'r Rhaglen Gyfuno: Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant, a'i darparu mewn ardaloedd Partneriaeth Cyfuno a chynyddu ein cyfraniad at weithgareddau;
- Cefnogi gweithgareddau dwyieithog yn Sir Gâr, Gwynedd ac ardaloedd eraill;
- Datblygu'r rhaglenni Campwaith Mewn Ysgol, sy'n mynd â'n trysorau i mewn i'r ystafell ddosbarth;
- Gweithredu llwyfan torfoli dwyieithog newydd (i'w defnyddio mewn prosiectau gwirfoddoli rhithiol) ac adnabod partneriaid i ymestyn y cynllun peilot i ardaloedd Partneriaeth Cyfuno.
- Fel rhan o brosiect sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol Cynnal, trafodaethau gyda phartneriaid o ran sefydlu Hybiau Treftadaeth Ddigidol mewn tri lleoliad y tu allan i Aberystwyth (bydd y pedwerydd hwb yn cael ei leoli yn y Llyfrgell Genedlaethol)



- Ehangu ein Rhaglen Gwirfoddoli gan gynnig mwy o gyfleodd i wirfoddolwyr digidol.
- Gweithio'n gydweithredol i sefydlu/ rheoli'r Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol er mwyn sicrhau gwasanaeth rhagorol i bobl Cymru.
- Darparu ystod ddeinamig a chyffrous o arddangosfeydd a digwyddiadau dwyieithog.
- Gweithio tuag at sefydlu canolfan ddiwylliannol newydd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Benfro yn Hwlfordd yn 2018.
- Parhau i gefnogi'r bartneriaeth strategol i ddarparu Gwasanaeth Casgliad y Werin Cymru gan hyrwyddo hybiau digidol cymunedol a hyfforddiant sgiliau.

## 6. Datblygu ein hymgyngori ac ymgysylltu

---

Cam cyntaf ymgysylltu cymunedol yw cynnal deialog neu ymgynghori â chymunedau. Ar wahân i'r ffaith ein bod ni fel sefydliad yn dyheu dwyn budd i'n cymunedau mae gan y Llyfrgell hefyd ddyletswydd i ymgynghori a chynnal deialog â'i defnyddwyr, a bydd gweithredu'r strategaeth hon yn gyfle i ni allu cyflawni'r ddyletswydd â'r dyhead pwysig hon.

Mae'r *IAP2* yn darparu egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn y Llyfrgell ac mae'r strategaeth hon yn nodi'r camau ymarferol y bwriedir ei wneud gennym i sicrhau bod ymgynghori'n rhan greiddiol, barhaol o'n gwaith ac o brofiad y defnyddiwr.

Byddwn yn:

- gwrandao ac ymateb i farn a phryderon pobl drwy gynnal deialog
- cynnwys pobl mewn penderfyniadau am newidiadau i'n gwasanaethau a'n polisiau
- gwella pa mor hygyrch ac atebol yr ydym i bobl Cymru a'n cynulleidfa ehangach, a
- meithrin ymddiriedaeth a chefnogaeth

Drwy ymgynghori byddwn yn derbyn ac yn rhannu'r manteision canlynol:

- sut orau y medwn ni wasanaethu ein pobl yn well
- doethineb a phrofiad ystod eang o bobl, gan gynnwys budd-ddeiliaid ac arbenigwyr mewn meysydd penodol
- syniadau ac atebion newydd

- dod i ddeall amrywiaeth a chryfder safbwyntiau
- dod i ddeall yr hyn y mae pobl Cymru am ei gael gan eu Llyfrgell Genedlaethol
- cyfleoedd i bobl rannu barn wahanol
- cyfleoedd i bobl fynegi eu barn os bydd cynnig yn effeithio arnynt
- y cyfle i gydbwysu ystod o safbwyntiau
- gwell prosesau gwneud penderfyniadau, a phenderfyniadau gwell
- mwy o berchnogaeth gyhoeddus ar benderfyniadau
- mwy o ymddiriedaeth yn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- penderfyniadau mwy dilys a chynaliadwy
- mwy o ymdeimlad o ddinasyddiaeth
- mwy o gymryd rhan mewn prosesau democrataidd

## **7. Grymuso drwy gydweithio ac ymgysylltu**

---

Nid yw hyrwyddo nac ymgynghori yn unig o anghenraid yn mynd i ddwyn manteision buddiol i'n cymunedau nac i'r Llyfrgell, ac felly bydd cynnwys aelodau'r gymuned, cydweithio â hwy a'u grymuso yn cyfrannu at les unigolion a'u cymunedau.

Bydd y strategaeth hon yn gyfrwng neilltuol i ymgysylltu â chymunedau ac ymestyn ein gwasanaethau yn arbennig yng nghyd-destun y Rhaglen Gyfuno: Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant, a'i ddarparu mewn ardaloedd Partneriaeth Gyfuno. O hyn allan, bydd ffocws penodol ar gefnogi gweithgareddau dwyieithog - yn y lle cyntaf - yn Sir Gâr ac yng Ngwynedd.

Byddwn hefyd yn datblygu'r rhaglenni Campwaith Mewn Ysgol hynod lwyddiannus, sy'n mynd â'n trysorau i mewn i'r ystafell ddosbarth, ac yn cynyddu lefel ein cyfraniad i weithgareddau'r Rhaglen Gyfuno. Yn ogystal, byddwn hefyd yn gweithio'n agos â Cadw, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Undebau Ilafer er mwyn datblygu'r bartneriaeth strategol Cymru Hanesyddol a pharhau i ddatblygu ffyrdd arloesol o gryfhau ein darpariaeth o wasanaethau diwylliannol a threftadaeth, o ddatblygu sgiliau yn y sector a gwneud y sector yn fwy gwydn i'r cwtogi parhaus ar arian cyhoeddus.

Bydd datblygu pedair canolfan ddigidol yn Aberystwyth, Wrecsam, Caerfyrddin a Chaerdydd i roi mynediad i archif ddarlledu gyfan BBC Cymru a datblygu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol yn gyfle euraid i gynyddu ein presenoldeb ar draws Cymru a manteisio ar gyfleoedd na welwyd o'r blaen ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus. Hefyd, bydd y bartneriaeth arbennig sydd wedi datblygu gyda'r Llyfrgell a chynghor Sir Benfro yng nghydestun datblygiad cyffrous Canolfan Penfro yn Hwlfordd yn rhoi cyfle pellach i ni gynyddu ein presenoldeb ac ymestyn ein gwaith yn y rhan yna o dde orllewin Cymru.

Byddwn hefyd yn cefnogi Blwyddyn y Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018 i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ogystal â chydweithio â'r Eisteddfod Genedlaethol, Cadw, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Henebion i ddatblygu'r Lle Hanes ar faes y Brifwyl a'r gweithgareddau fydd yn gysylltiedig â'r datblygiad pwysig hwn. Yn ogystal, bydd parhau i weithio'n agos â phartneriaid ar weithredu a datblygu rhaglen Casgliad y Werin yn rhoi rhagor o gyfleoedd ymgysylltu rhagorol i'r Llyfrgell.

## **8. Dulliau Ymgynghori ac Ymgysylltu**

---

Mae'r Strategaeth hon eisoes wedi nodi, wrth i anghenion a swyddogaethau'r Llyfrgell ddatblygu, ac wrth i agweddau'r cyhoedd esblygu, bod rhaid inni fod yn fwy hyblyg yn ein dulliau ymgynghori ac ymgysylltu i sicrhau eu bod yn effeithiol. Cyflawnir hyn trwy fabwysiadu ystod o ddulliau gwahanol a system sy'n hyblyg a fydd yn fuddiol i bob un. Y pwrpas cyffredinol fydd gwneud gwahaniaeth i'r Llyfrgell a'r cyfranogwyr fel ei gilydd a hefyd sicrhau ein bod ni'n dilyn arferion gorau ac egwyddorion moesegol.

Bydd y gwahanol ddulliau hyn yn darparu cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu ac annog cyfranogiad gan bawb sydd â diddordeb mewn gweithgareddau, penderfyniadau a/neu weithgareddau'r Llyfrgell, neu â phawb fyddai'n gwasanaethau yn effeithio arnynt. Bydd cymunedau difreintiedig a grwpiau lleiafrifol yn cael eu hannog i gymryd rhan, a bydd rhwystrau'n cael eu hosgoi trwy gynllunio gofalus. Bydd ymgynghori ac ymgysylltu hefyd yn rhan o brosesau cynllunio'r Llyfrgell, gan gynnwys dyrannu adnoddau.

## **8.1 Egwyddorion Rheoli**

Rydym yn deall bod unigolion yn cael eu cymell i gymryd rhan mewn gweithgareddau am resymau gwahanol, a bydd pob rheswm a barn yn cael ei barchu. Bydd y Llyfrgell yn sicrhau bod y rhai sy'n arwain y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn gallu esbonio'r pwrpas a'r broses yn glir, yn meddu ar wybodaeth dda o'r pwnc ac yn gallu ymateb i gwestiynau. Bydd rhanddeiliaid a chyfranogwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud cyfraniadau gwybodus, a bydd pob proses yn cael ei fonitro a'i werthuso i sicrhau effeithiolrwydd. Yn yr un modd, bydd yr holl adborth yn cael ei werthuso a bydd canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r cyfranogwyr i ddangos sut mae eu cyfraniad wedi helpu i lunio datblygiadau.

Rheolir data personol a gafwyd yn ystod y gweithgareddau hyn yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 (ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol) ac egwyddorion moesegol. Bydd cyfranogwyr yn cael gwybod am sut y bydd y wybodaeth a ddarperir ganddynt yn cael ei ddefnyddio ac na fydd y manylion personol yn cael eu datgelu heb ganiatâd. Lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan, gofynnir am ganiatâd rhieni / gwarcheidwaid.

## **8.2 Dulliau**

Wrth gynllunio ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu at ddiben penodol, bydd y Llyfrgell yn defnyddio dadansoddiad rhanddeiliaid i nodi grwpiau perthnasol a dulliau priodol o weithredu. Defnyddir ystod o ddulliau ar gyfer pob prosiect unigol, a bydd pwrpas, pwnc a natur y gweithgareddau yn pennu lleoliad a lledaeniad daearyddol yr ymgynghori a'r ymgysylltu.

### ***Arsylwi***

Mae gweld sut mae pobl yn mynd at gyfleuster neu symud o gwmpas yn fan cychwyn da, gan ei bod yn aml yn codi cwestiynau y mae angen gofyn a'u datrys trwy ddeialog, megis grwpiau ffocws neu weithdai.

### ***Dogfennau Ymgynghori***

Ystyrir y rhain fel un o'r offer ymgysylltu mwyaf confensiynol ac fe'i defnyddir i osod cynigion / cynlluniau a chwestiynau cysylltiedig. P'un ai mewn fformat papur neu electronig, maen nhw'n cynnig man cychwyn ar gyfer datblygu cynigion a chodi diddordeb y cyhoedd, ond nid ydynt o

reidrwydd yn annog ymgysylltu. Maent yn fwyaf effeithiol ar gyfer casglu barn am faterion syml sy'n cael eu deall yn dda neu am gael mewnbwn manwl gan randdeiliaid cymwys / profiadol, ond maent hefyd yn ategu dulliau eraill.

### ***Cyfarfodydd Agored a Chyhoeddus***

Yn y cyd-destun presennol, fel arfer, caiff 'cyfarfodydd agored' eu diffinio fel rhai y mae'r cyhoedd yn rhydd i'w mynychu fel arsylwyr. Er enghraifft, mae cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell yn agored i'r cyhoedd, sy'n mynychu fel arsylwyr yn unig. Mewn cyferbyniad, mae 'cyfarfodydd cyhoeddus' yn cynnwys ymgysylltu uniongyrchol a gallant fod yn gwbl gyfranogol: nid mater o hysbysebu'n yn unig yw'r arfer gorau, ond dylid hefyd gwahodd grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan alluogi cyflwyno gwybodaeth i gynulleidfa eang mewn trafodaethau agored. Maent yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ymgysylltu'n â chynulleidfa eang, gan rannu gwybodaeth ac ymgynghori â niferoedd mawr. Mae'r rhyngweithio hwn hefyd yn hwyluso perthynas gadarnhaol â rhanddeiliaid, rhwydweithio a chyhoeddusrwydd defnyddiol.

### ***Paneli Arbenigol***

Mae'r rhain yn ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu mwy ffurfiol, a ddefnyddir i archwilio materion yn fanwl a gwneud argymhellion. Yn aml, maent yn rhannu diddordebau penodol a meysydd arbenigedd, gan gynnwys meysydd academiaidd, proffesiynol neu leoliad, ond gellir eu recriwtio'n fwy cyffredinol i wasanaethu fel paneli Dinasyddion. Mae recriwtio gofalus yn arbennig o bwysig i sicrhau bod cynrychiolaeth yn gytbwys ac yn briodol yn ôl yr angen a'r pwrpas. Mae materion sy'n elwa o ystyriaeth y panel yn cynnwys profi syniadau / cynlluniau cychwynnol; datblygu syniadau penodol; adeiladu perthnasoedd a photensial eiriolaeth; cynnwys rhandaliad mewn materion heriol i fynd i'r afael â chwestiynau a phryderon; casglu barn arbenigol i hysbysu prosiectau neu weithgareddau; a chynnal perthynas. Mae'n bosibl y bydd paneli yn cwrdd yn bersonol neu'n cael eu hymgyngori trwy gyfryngau electronig, naill ai ar 'dasg a gorffen' neu yn y tymor hirach.

### ***Gweithdai***

Mae'r rhain yn hyblyg ac efallai eu bod yn uno neu'n parhau ochr yn ochr â dulliau ymgysylltu eraill. Maent yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer dod ag amrywiaeth o safbwyntiau at ei gilydd, adeiladu perthnasoedd; a galluogi rhandaliad i wneud penderfyniadau ar y cyd ar bwyntiau, gweithredoedd a gweithrediadau allweddol. Maent hefyd yn gwasanaethu fel ymgysylltu rheolaidd â'r cyhoedd â rhandaliad.

### ***Digwyddiadau a Gweithgareddau ar y Safle ac Estyn Allan***

Bydd y rhain yn cynnwys dulliau ffurfiol a hyblyg o ymgynghori ac ymgysylltu wrth rannu gwybodaeth ar adnoddau a gwasanaethau'r Llyfrgell gyda'r cyhoedd. Bydd staff y Llyfrgell yn casglu barn a sylwadau'r rhai sy'n cymryd rhan dra ar y un pryd yn ceisio cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a phartneriaethau newydd all fod o fudd i'r Llyfrgell a chymunedau lleol.

### ***Grwpiau Ffocws***

Mae'r dull hwn yn dwyn ynghyd unigolion sy'n perthyn i rywun neu wedi'u segmentu yn ôl y math ac yn ddefnyddiol ar gyfer treialu cynlluniau, deunyddiau neu dulliau cyflwyno a cheisio adborth. Y pwrpas yw ymgysylltu â chyfranogwyr sy'n adlewyrchu defnyddwyr terfynol cynnyrch neu wasanaeth trwy eu galluogi i archwilio a phrofi, ystyried sut y caiff ei gyflwyno, a mynegi eu barn. Gellir rhedeg nifer o grwpiau ffocws gyda chyfranogwyr tebyg yn gyfochrog ac mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu. Ni ddylai pob grŵp fod yn fwy na 20 o gyfranogwyr a disgwylir i'r holl wahoddwyr gyfrannu.

### ***Holiaduron ac Arolygon***

Defnyddir yr offer hwn i gasglu gwybodaeth ystadegol a meintiol ar bynciau penodol neu adborth mwy cyffredinol, a gall fod yn bapur neu'n electronig. Gellir defnyddio'r ddau ar gyfer gwahanol ddibenion, fel casglu symiau mawr o ddata meintiol ac ansoddol; barn ar ystod o opsiynau; ymatebion anhysbys; neu ymatebion a roddir ar wahanol adegau er hwylustod personol. Ym mhob achos, mae'n bwysig defnyddio samplau cynrychioliadol. Gall holiaduron gael eu cynllunio ar gyfer eu cwblhau gan unigolion a ymgynghorir â hwy neu eu cwblhau gan gyfwelydd.

### ***Cyfathrebu ar-lein***

Mae rhannu gwybodaeth ar bynciau penodol trwy wefan y Llyfrgell, blygiau, cyfryngau cymdeithasol ac e-bost yn rhan o ymgysylltu ac adeiladu cysylltiadau. Mae e-bost yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal cyswllt personol a deialog gyda rhandaliad. Mae'r dulliau cyfathrebu hyn yn hwyluso ymgysylltu â rhandaliad ar gost gymharol fach, rhannu a dosbarthu gwybodaeth, cynnal cysylltiad, a derbyn sylwadau ac adborth.

### ***Dulliau traddodiadol***

Mae'r dulliau hyn ar gyfer ceisio barn y cyhoedd / rhandaliad yn cynnwys llyfrau sylwadau mewn arddangosfeydd ac ati, a ffurflenni adborth mewn digwyddiadau. Y pwrpas yw casglu adborth ar ansawdd y gwasanaeth, manylion cyswllt os dymunir, neu farn am brofiadau penodol. Mae digwyddiadau a gweithgareddau cyffredinol hefyd yn darparu cyfleoedd ymgysylltu â'r cyhoedd. Efallai y bydd gofyn i asiantaethau allanol ymgymryd ag ymgynghori a phroffilio ymwelwyr.

## **9. Cefnogi Ymgynghori ac Ymgysylltu**

---

Mae staff y Llyfrgell yn cynnal cronfeydd data diogel at y diben hwn, gan gynnwys unigolion sydd wedi gofyn am wybodaeth gennym neu wedi cytuno i ymgysylltu rhan mewn ymgynghoriad. Rheolir yr holl ddata personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac egwyddorion moesegol, ac mae'r Llyfrgell yn effro i unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth gwybodaeth.

## **10. Rhwydweithiau**

---

Sefydliar cronfa ddata o rwydweithiau yn y sector treftadaeth / diwylliannol a thu hwnt i logio lle i ddod o hyd i arfer gorau a gwybodaeth gyffredinol am ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori. Bydd rhwydweithiau staff mewnol yn rhannu arfer gorau a datblygu sgiliau. Wrth gadw ei achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid yn 2017, dangosodd y Llyfrgell dystiolaeth enghreifftiol o'i berthynas ardderchog â'i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, er mwyn gwella'r berthynas hon ymhellach a sicrhau bod arferion ymgynghori ac ymgysylltu'r Llyfrgell yn rhoi'r dystiolaeth angenrheidiol i ni i wella ein gwasanaethau, bydd y Llyfrgell yn creu cysylltiadau gyda'r Grŵp Astudiaethau Ymwelwyr, sy'n anelu at fod yn 'llais o astudiaethau ymwelwyr'. Mae'n grŵp cenedlaethol o weithwyr proffesiynol ymgysylltiedig sy'n cefnogi ei gilydd i gyflawni arfer gorau yn y maes hwn. Mae'r GAY yn argymhell arfer gorau trwy gynrychioli barn ac arbenigedd, yn cymryd rhan mewn dadl ac yn effeithio ar bolisi a strategaeth ar draws y sector diwylliannol. Bydd y Llyfrgell hefyd yn cydweithio â Participation Cymru, sy'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol a chyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ymgysylltu â'r cyhoedd i sefydliadau sy'n cymryd rhan weithgar wrth ddatblygu ymgysylltiad dinasyddion.

## **11. Hyfforddiant staff**

---

Datblygir rhaglen bwrpasol o ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff yn ystod 2017-2018, gyda'r nod o gyflwyno'r theori ac offer ymarferol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach gan sesiynau unigol ar gyfer staff ar brosiectau penodol, yn ogystal â datblygu gweithdai a chynlluniau gwaith pellach i ddarparu elfennau a mentrau newydd. Anogir staff hefyd i gymryd rhan mewn hyfforddiant allanol a digwyddiadau rhwydweithio, yn enwedig y rhai a fydd yn cael eu cyflwyno gan y Grŵp Astudiaethau Ymwelwyr a Participation Cymru.

## **12. Cynllunio Gweithredol a Gwerthuso**

---

Bydd cynllun gweithredol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei ddatblygu erbyn Chwefror 2018 i ddarparu manylion strwythuredig i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar sut y bydd y Strategaeth yma'n cael ei chyflawni. Bydd dangosyddion perfformiad yn cael eu cytuno a'u hadolygu'n flynyddol.